Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Penysarn**

**Caban**
**Ysgol Gynradd Penysarn**
**Lôn yr Ysgol**
**Penysarn**
**LL69 9AZ**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

08/11/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Penysarn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal plant dyddiol<br>Gofal dydd sesiynol |
| Darparwr cofrestredig | Sian Rowlands |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br>Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw<br>Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Caiff barn a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt. Maent yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni / gofalwyr oherwydd bod trawsnewidiadau dyddiol cyson yn cydnabod ac yn cefnogi eu hanghenion unigol. Mae’r plant yn ddysgwyr gweithredol a chwilfrydig ac yn mwynhau gwneud dewisiadau am yr hyn maen nhw eisiau chwarae ag ef. Mae'r rhyngweithio rhwng plant a'r rhai sy'n gofalu amdanynt yn gyson dda, ac o ganlyniad, mae gan y plant ddiddordeb yn eu gweithgareddau ac maent yn cymryd rhan ynddynt. Mae’r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn dda. Mae gan y staff agwedd gynnes a chyfeillgar tuag at roi gofal. Maent yn canmol y plant am eu hymdrechion a'u cyflawniadau. Mae'r gweithgareddau wedi'u trefnu'n dda ac yn annog y plant i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae’r staff yn hyrwyddo arferion iach ac yn datblygu sgiliau echddygol manwl a sgiliau corfforol y plant yn gadarnhaol trwy weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn groesawgar. Mae amrywiaeth o adnoddau a theganau sy'n briodol i'w hoedran. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn rheoli Cylch Meithrin Penysarn yn addas. Maent yn adolygu safon y gofal yn briodol ac wedi adeiladu partneriaethau da gyda rhieni a'r gymuned leol. Mae’r lleoliad yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg a darperir ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg.

## Llesiant

Mae'r plant yn fodlon ac yn mynegi mwynhad.  Maent yn profi cyfleoedd sy'n briodol i'w hoedran gan hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol.

Mae'r plant wrth eu boddau ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad.  Er enghraifft, maent yn dangos i ni sut maentarchwilio eu hardal chwarae gan wneud dewisiadau am yr hyn maen nhw eisiau chwarae ag ef. Mae plentyn yn dangos sut mae'n llenwi'r cynwysyddion o wahanol feintiau yn yr hambwrdd dŵr ac yn ymarfer ei sgiliau arllwys. Gwrandewir ar blant ac ymatebir yn amserol i'w ceisiadau. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, rhoddwyd cais plentyn am fwy o laeth iddynt ar unwaith.

Mae plant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac mae hyn yn rhoi ymdeimlad o ddiogelwch iddynt. Maent yn ymolchi eu dwylo cyn bwyta eu pryd o fwyd. Ar ôl chwarae yn yr awyr agored, bydd y plant yn sychu eu traed ar y mat ac yn eistedd i lawr i dynnu eu hesgidiau glaw. Mae'r plant yn barod i fynd at staff yn rhwydd i wneud ceisiadau a chael cysur a sicrwydd.

Mae rhyngweithiadau'r plant yn gadarnhaol ac fe'u canmolir am eu cyflawniadau a'u hymdrechion. Gwobrwywyd sticer i blentyn am ddefnyddio'r toiled yn llwyddiannus ac am ymolchi ei ddwylo. Gwnaeth hyn i'r plentyn deimlo'n dda amdano'i hun. Mae'r plant yn gwrtais ac maen nhw'n ymarfer defnyddio moesau da. Maent yn dysgu rhannu a chymryd eu tro yn dda. Er enghraifft, wrth chwarae gyda'r fainc waith a'r offer adeiladu, cymerodd plentyn ei dro i forthwylio'r hoelion tegan a defnyddio'r sgriwdreifar.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu gan fod digon o weithgareddau i ddewis ohonynt. Roedd plentyn wedi ymgysylltu'n llawn wrth iddo edrych trwy lyfr stori lluniau anferth. Bu'r plant yn chwilio yn yr ystafell chwarae am y propiau a oedd yn ymwneud â'r stori. Roeddent yn gwrando'n dda ar staff pan ddywedwyd wrthynt ymhle y gallent ddod o hyd iddynt. Dangosodd plentyn frwdfrydedd yn ystod amser cofrestru ac roedd yn edrych ymlaen at roi'r cerdyn llun cywir ar y bwrdd arddangos.  Gosododd y plentyn y cerdyn cywir yn ofalus i ddangos diwrnod yr wythnos a mis y flwyddyn. Mae'r plant yn brysur ac yn datblygu eu dychymyg yn dda trwy chwarae rôl. Maent yn dechrau deall am garedigrwydd ac empathi yn dda. Er enghraifft, gosododd plentyn y bwrdd yn y gornel gartref gyda detholiad o gwpanau a soseri wrth iddo esgus gwneud te. Rhoddodd y ci tegan yn y fasged a'i orchuddio â blanced i fynd i gysgu.

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn dda. Maent yn gosod eu heiddo personol ar beg â dyfalbarhad. Yn ystod amser byrbryd, dyfalbarhaodd plentyn i dynnu'r croen oddi ar ei fanana ac roedd yn falch ohono'i hun pan lwyddodd i wneud hynny. Pan sychodd un plentyn ei ddwylo, fe wnaeth ddefnyddio bin pedal i gael gwared ar ei dywel papur. Mae'r plant yn dysgu gwneud pethau drostynt eu hunain gyda llawer o ganmoliaeth gan staff.

## Gofal a Datblygiad

Mae’r staff yn ymateb yn gyson i blant, maent yn gwrando ac yn parchu dewisiadau a cheisiadau plant. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn ymrwymedig i ddarparu ystod eang o weithgareddau chwarae a dysgu.

Mae’r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau diogelu ac maent yn gweithredu'r polisïau yn dda. Mae hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu yn gyfredol ac yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal.  Mae’r gweithdrefnau newid cewynnau yn unol â'r canllawiau rheoli heintiau cyfredol.

Mae’r staff yn amlwg yn cofnodi presenoldeb plant a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn gywir ac yn rhoi gwybodaeth gyson i rieni. Fodd bynnag, nid yw’r staff yn cofnodi anafiadau presennol plant i sicrhau nad oes unrhyw batrymau posibl yn dod i'r amlwg yn yr anafiadau y mae plant yn eu cael pan nad ydynt yn mynychu'r lleoliad.

Mae’r staff yn hyrwyddo arferion iach yn dda, er enghraifft, nododd y rhan fwyaf o rieni yn arolygon AGIC fod eu plant yn cael eu hannog i fwyta'n iach a bod yn actif. Mae’r staff yn annog plant i ymolchi eu dwylo ac mae hyn yn helpu i ddatblygu eu harfer hylendid personol yn briodol.

Mae’r staff yn annog y plant i chwarae yn yr awyr agored i ddatblygu eu sgiliau corfforol. Mae ffotograffau o'r plant yn eu dangos yn mwynhau eu hamser yn chwarae yn y parc lleol ac yn dyfrio'r blodau ym mhlanwyr y pentref. Mae’r staff yn cynnal ymarferon tân i sicrhau bod plant yn gwybod beth i'w wneud os bydd yn rhaid iddynt adael yr adeilad os bydd argyfwng, a chaiff y canlyniad ei gofnodi.

Ar hyn o bryd, mae’r staff yn mynd trwy newid o ran cyflwyno cwricwlwm cynllunio'r blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd. Maent yn canolbwyntio'n eithriadol o dda ar fuddiannau'r plentyn, ei anghenion a'i ddatblygiad unigol. O ganlyniad, mae’r staff yn trefnu gweithgareddau diddorol sy'n cael eu harwain gan ddewisiadau a phenderfyniadau'r plentyn.  Mae’r staff yn olrhain cynnydd plant yn effeithiol ac wedi defnyddio'r arsylwadau hyn i greu profiadau dysgu da i blant. Maent yn cynllunio'n dda ar gyfer y camau datblygu nesaf ac yn adolygu cynnydd yn rheolaidd.  Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn cael eu hysbysu am ddatblygiad eu plentyn yn ddyddiol a'u bod yn hapus gyda'r ffordd y mae eu plentyn yn dod yn ei flaen.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn sicrhau bod arferion glanhau ac arferion hylendid yn dilyn canllawiau cyfredol. Maent yn sicrhau bod staff yn goruchwylio plant yn dda yn ystod gweithgareddau dan do ac awyr agored.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad wedi sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a llesiant y plant. Cwblhawyd asesiadau risg, gan nodi'n briodol y peryglon posibl i blant a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel a glân lle gall plant chwarae a dysgu. Mae gwybodaeth glir ar gael i'r tîm staff ynghylch sut yr ymdrinnir ag argyfyngau.

Mae teganau ac adnoddau yn addas ar gyfer yr oedrannau sy'n derbyn gofal ac mae gan blant fynediad at ddodrefn o faint priodol. Mae cynllun yr ystafell chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth plant ac maent wedi'u trefnu'n ddeniadol i alluogi plant i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain yn rhydd ynghylch yr hyn y maent am chwarae ag ef.

Mae meysydd dysgu wedi'u trefnu'n hyfryd, gan wahodd plant i ddatblygu eu creadigrwydd a'u dychymyg yn dda. Mae detholiad da o adnoddau naturiol i ddatblygu sgiliau synhwyraidd, iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth plant. Mae teganau ac adnoddau yn addas ac yn hygyrch i blant. Mae gwaith celf plant yn cael ei arddangos yn ddeniadol sy'n helpu i greu ymdeimlad o berthyn.

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad yn datblygu'r ardal chwarae awyr agored yn dda. Maent yn rhoi mwy o gyfleoedd i blant ddysgu am y byd naturiol a chwarae yn yr awyr iach, ym mhob tywydd. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn cael ei threfnu i adlewyrchu ardaloedd dysgu penodol y gofod chwarae dan do. Mae ystod o offer sy'n briodol i'w hoedran, fel cerbydau pedal i blant ddewis ohonynt i ddatblygu eu sgiliau corfforol yn dda.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl sy'n cynnal y lleoliad wedi ymrwymo i wneud gwelliannau i sicrhau bod canlyniadau gwell i blant yn cael eu cyflawni a'u cynnal.

Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi gwybodaeth glir i rieni am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith a gweithredir y rhain yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r dyddiad adolygu diweddaraf wedi'i nodi ar bob un. Mae gan y bobl sy'n cynnal y lleoliad ddealltwriaeth eithriadol o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn bodloni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg.

Mae'r adroddiad sy'n adolygu safon y gofal yn flynyddol yn llawn gwybodaeth ac yn fyfyriol. Mae'n tynnu sylw at welliannau a wnaed a gweledigaeth y bobl sy'n cynnal y lleoliad ar gyfer y dyfodol. Mae'r adroddiad yn nodi bod holiaduron yn cael eu rhoi i rieni ddwywaith y flwyddyn, ond nid yw eu sylwadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Ni chafwyd unrhyw gyfeiriadau at yr adborth a gafwyd gan blant, staff nac asiantaethau allanol yn yr adroddiad, sy'n ofynnol hefyd.  Bydd angen i'r bobl sy'n cynnal y lleoliad ystyried sylwadau pawb sy'n defnyddio'r lleoliad ynghyd â meysydd eraill, a allai fod angen eu gwella a'u cynnwys yn adroddiad yr adolygiad nesaf o safon y gofal.

Mae gwiriadau datgelu a gwahardd y bobl sy'n cynnal y lleoliad yn gyfredol, yn ogystal â'r hyfforddiant perthnasol. Nid yw'r unigolyn sy'n gyfrifol wedi sicrhau ei bod wedi rhoi ffotograff diweddar o bob aelod o staff yn y ffeiliau staff at ddibenion gwirio. Dywedodd staff wrthym eu bod yn derbyn sesiynau goruchwylio ac arfarnu anffurfiol. Fodd bynnag, nid oes cofnod cyfredol o'r trafodaethau ar fonitro perfformiad staff, eu harferion diogelu na'u datblygiad proffesiynol.  Nid ydynt wedi sicrhau bod rhieni'n cwblhau'r holl wybodaeth ofynnol yng nghofnod eu plentyn i sicrhau bod staff yn diwallu holl anghenion unigol y plant.

Mae'r unigolyn sy'n gyfrifol yn frwdfrydig ac wedi ymrwymo i'w rôl.  Dywedodd wrthym ei bod yn edrych ymlaen at ysgogi gwelliannau i blant a gweithio'n agos gyda staff ac asiantaethau eraill i helpu i ddatblygu eu harfer.  Dywedodd staff wrthym fod y bobl sy'n cynnal y lleoliad yn 'gefnogol iawn' a bob amser ar gael pan fydd eu hangen.

Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw pa mor hapus oeddent gyda'r lleoliad a datblygiad eu plentyn. Roedd arolygon rhieni AGIC a dderbyniwyd hefyd yn gadarnhaol. Dywedodd rhai rhieni eu bod yn credu bod y gofal a'r datblygiad yn 'rhagorol'.

Mae partneriaethau da wedi'u hadeiladu gyda'r gymuned leol.  Er enghraifft, mae masnachwyr adeiladu lleol wedi rhoi gorchuddion amddiffynnol ar gyfer yr offer chwarae yn yr awyr agored. Mae cyfrifiadur wedi cael ei roi gan gwmni ailgylchu lleol ac mae cyngor cymuned y pentref wedi rhoi dau blannwr yn y pentref er mwyn i'r plant allu plannu blodau a'u dyfrio. Dangosodd ffotograffau o blant eu bod yn mwynhau eu hamser yn chwarae ac yn ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd i gyflawni sgiliau cymdeithasol gwell.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1: Cofnodi ac adolygu anafiadau presennol i blant i sicrhau nad oes unrhyw batrymau yn dod i'r amlwg yn yr anafiadau y mae plant yn eu cael pan nad ydynt yn mynychu'r lleoliad. Bydd hyn yn helpu i ffurfio rhan o arferion diogelu ehangach y lleoliad.

A2: Sicrhau bod y dyddiad adolygu mwyaf cyfredol yn cael ei nodi ar bob polisi a gweithdrefn a bod y bobl sy'n cynnal y lleoliad yn eu llofnodi.

A3: Cynnwys sylwadau plant, staff, rhieni ac asiantaethau allanol yn yr adroddiad sy'n adolygu safon y gofal er mwyn cynorthwyo i nodi gwelliannau wrth symud ymlaen.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Nid yw'r unigolyn sy'n gyfrifol yn cydymffurfio â rheoliad 28 gan nad yw wedi casglu'r holl wybodaeth ofynnol i wirio staff. Nid oedd ffotograff glir diweddar o'r aelod staff yn ei ffeil. | Newydd |
| 30 | Nid yw'r unigolyn sy'n gyfrifol yn cydymffurfio â rheoliad 30; mae hyn oherwydd nad yw wedi sicrhau bod rhieni'n cwblhau'r holl wybodaeth ofynnol yng nghofnod eu plentyn, er enghraifft, nid oedd yr adran sy'n ymwneud ag anghenion dietegol plentyn wedi'i chwblhau ac nid oedd y blwch ar gyfer rhif ffôn ar gyfer ymarferydd meddygol y plentyn wedi'i gwblhau. | Newydd |
| 29 | Nid yw'r unigolyn sy'n gyfrifol yn cydymffurfio â rheoliad 29; mae hyn oherwydd na allai ddarparu tystiolaeth i ddangos i ni sut maent yn cynnal sesiynau goruchwylio ac arfarnu priodol gyda staff. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 06/01/2022